# DINESYDD
## Mehefin

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1983

RHIF 97

# GWYL IFAN
## MEHEFIN 17,18,19

NOS WENER
MEHEFIN 17 :

Noson Lawen a Chroeso yng Ngwesty'r Crest, Ystafell Glanyrafon, Tan 00.30 a.m.

DYDD SADWRN
MEHEFIN 18 :

Gorymdaith o gwmpas Caerdydd.
yn dechrau 11.00 a.m.

Dawnsio yng nghanol Caerdydd :
yn dechrau 11.30 - 12.30

Heol y Frenhines (Allders/BHS)
Heol y Frenhines (Churchill Way)
Yr Ais
Stryd Gwaith

Dawnsio ar Dwmpath y Cloc,
Castell Caerdydd,
14.00 - 15.00 p.m.

Dawnsio yn y Parciau :
15.00 - 16.00 p.m.

Parc Buddug a Chanolfan Hamdden Gorllewinol
Parc y Rhath
Gerddi Tredelerch a Chanolfan Hamdden Dwyreiniol

*******************************************

DATHLIAD GŴYL IFAN 1983 :

Gwesty'r Dyffryn
Ffrwd, Nantgarw.

*******************************************

TAPLAS GŴYL IFAN : Neuadd y Ddinas,
Caerdydd
o 19.00 p.m.

BORE SUL
MEHEFIN 19 :

Gweithdai, cymdeithasu a choffi yng Ngwesty'r Crest, Ystafell Glanyrafon.






Yn ôl i'r gorffennol:

Wyddwn i ddim fod tîm yn cynrychioli Tŷ'r Cymry yn chwarae yng Nghynghrair y 'Cardiff Combination' mor bell yn ôl â 1954/55.

A ydych chi yn adnabod y bechgyn cydnerth yma? Gadewch i mi wybod, a mwy, ychydig o hanes tîm Tŷ'r Cymry.

# GOLYGYDDOL

A Ysgol Bryntaf o'i chartref presennol i adeilad gwag ar gyrion dwyreiniol y ddinas ym mis Medi. Mae'n ymddangos nad oes neb yn wirioneddol o blaid y syniad, ond mynd fydd rhaid. Peth rhyfedd yw democratiaeth. Fe'n galwyd i bleidlais ddwywaith o fewn y mis a aeth heibio. Mis o groesau fu hi. A diau y bydd llawer o rieni Bryntaf yn tybio nad yw eu croesau ond megis yn dechrau. Collwyd y frwydr i gadw'r ysgol o fewn dalgylch cartrefi y rhelyw o'r plant. "Ymdrechwyd ymdrech deg...."

Bellach bydd yn rhaid cludo'r plant o'u cynefin i gyrchu addysg. Nid yw hynny ynddo ei hun yn chwyldroadol o gwbl. Teithio at addysg Gymraeg fu'r arfer erioed ac yma yng Nghaerdydd (lle mae'r boblogaeth Gymraeg yn wasgaredig) nid yw'n syndod o gwbl fod nifer o blant yn gorfod mynd heibio i nifer o sefydliadau agos at eu cartrefi er mwyn cyrraedd ysgol Gymraeg.

Dadl rhieni Ysgol Bryntaf oedd fod cyfran anghyffredin o blant yr ysgol (bron y cyfan, mae'n ymddangos) yn mynd i orfod croesi canol y ddinas i gyrraedd yr adeilad newydd. Yn ôl a ddeallir nid oes fawr o ddadlau ynglŷn ag addasrwydd yr adeilad fel y cyfryw. Dim ond y lleoliad yw'r pwnc llosg.

Torrwyd addewidion o adeilad newydd sbon yn honiad y rhieni. Efallai taw naïf oedd credu addewidion o'r fath yn y lle cyntaf. Nid yw'r ffordd at amgylchiadau delfrydol i'r Gymraeg mor syth â Newport Road. Ac mae yn sicr o fod ymhellach na'r ffordd o fan'ma i Lanrhymni. Mae hefyd yn serthach na Rhiw Rhymni. Gresyn bod to ifanc arall o Gymry'r ddinas yn mynd i orfod ei cherdded.

# YR AGORIAD

Yn ddiweddar, fe ddywedodd un o fy athrawon Cymraeg fod y gair RHESTR yn dod o'r Saesneg, ROSTER. Roeddwn i'n synnu. Yn y lle cyntaf, nid Saesneg yw roster, ond o'r Iseldireg. Yn ail, mae'n fwy na thebyg bod rhestr yn dod o Ladin Hwyr, regesta.

Mae pob iaith yn benthyg geiriau os ydy hi'n fyw (o ble mae'r gair Saesneg coombe yn dod?) ond nid am ieithyddiaeth ydw i'n bwriadu sôn ond am y ffaith bod gormod o'r math yma o beth yn digwydd yn y dosbarth ac, yn wir, yng Nghymru ac ymysg y Cymry. Hynny yw, y syniad bod popeth yn dod o'r Saesneg neu'r Saeson! O, mae'r geiriau fel licio a smocio yn amlwg, ond nid pob gair sy'n debyg i un yn Saesneg sy'n dod o'r iaith. Mae'r Cymry'n meddwl fel petai nhw wedi derbyn dinasyddiaeth ail-ddosbarth yn llwyr, wedi llyncu diwylliant ac iaith y Saeson fel gwerinos sy'n newid ei meddwl gyda'r siaradwr cryfaf. Yn rhy aml, mae'r Cymry'n dangos taeogaeth mewn ymdrech i fod yn gymdeithasol.

Wrth gwrs, pobl hynod o garedig a chwrtais ydy'r Cymry. Efallai, dyna'r rheswm fod diystyriaeth y bobl sy'n symud i Gymru o'r dwyrain wedi sathru drostynt a'u hiaith. Pam mae'r Cymry'n troi i'r iaith fain os oes un di-Gymraeg yn y stafell? Yn Nenmarc, mae'n rhaid i bawb ddysgu Daneg ar ôl tri mis yn y wlad. Mae'r Danwyr yn falch o'u hunain a'u hiaith. Ble mae'r balchder yng Nghymru? Mae'r Saeson yn meddwl taw

iaith yw Saesneg a does dim yr un Sais sy'n meddwl nad ydy ei iaith a'i ffordd o siarad yn ddigon da i sgwrsio.

Nid rhyw berthynas tlawd i iaith sy'n ifancach yw'r Gymraeg. Y ffordd fwyaf gyflym i'w lladd yw peidio ei siarad, am unrhyw reswm. Mae gan y plant obaith. Er nad ydw i'n hoffi cael fy nghywiro, rwy'n gwenu bob tro i glywed rhyw blentyn eofn yn dweud wrthyf fy mod i wedi gwneud camgymeriad! O leiaf, maen nhw'n falch o'u hiaith.

gan Leigh Verrill-Rhys

-----------


Ar gyfer y dysgwr :

Iseldireg - Dutch
ieithyddiaeth - linguistics
dinasyddiaeth - citizenship
gwerinos - the rabble
taeogaeth - servility
diystyriaeth - inconsideration
eofn - cheeky


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530



HTV

Cynorthwy-ydd Cynhyrchu/
Ysgrifennydd dan Hyfforddiant

Mae arnom angen Cynorthwy-ydd Cynhyrchu/Ysgrifennydd Dan Hyfforddiant i weithio yn ein stiwdio yng Nghaerdydd.

Golyga'r swydd hon weithio gyda cynhyrchydd/cyfarwyddwr teledu yn y swyddfa, yn yr oriel gynhyrchu ac yn achlysurol ar raglenni teledu allanol. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar bersonoliaeth allblyg, mwynhau trefnu a'r gallu i weithio yn hamddenol heb gyfarwyddid mewn awyrgylch brysur. Mae'r gallu i deipio yn gyflym a chywir yn angenrheidiol yn ogystal a gwybodaeth drylwyr o'r iaith Gymraeg.

Cyflog yn ystod hyfforddiant £5,106 y flwyddyn.

Cyfleusterau gweithio ardderchog, ynghyd a chynlluniau pensiwn a salwch etc.

**Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DI/234 at: Rheolwr Staffio, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF1 9XL.**

*Yr ydym yn gyflogwyr cyfle cyfartal.*

# Y SILFF LYFRAU

John Cox (addas. Guto Prys ap Gwynfor) A OES HEDDWCH? Y Lolfa, £2.25.

-----

Cwestiwn yw teitl y llyfr 'A OES HEDDWCH?' ond nid 'Heddwch' yw'r ateb a geir ynddo.

Mae'r awdur yn dangos sut mae arfau niwcliar wedi effeithio arnom ni ac ar wledydd tlawd y byd yn arbennig, hyd yn oed yn y cyfnod o 'heddwch' a gafwyd er 1945. Mae'n dangos anfoesoldeb y ras arfau, ac yn barnu'r bobl sydd yn elwa ohoni.

Erbyn diwedd y llyfr mae un peth yn dod i'r amlwg, sef bod gobaith i'r dyfodol, ond mai arnom ni mae'r cyfrifoldeb i sicrhau heddwch.

Mae 'A OES HEDDWCH?' yn gyfeithiad ardderchog o lyfr sydd yn cyflwyno ffeithiau caled ynghyd â nifer fawr o luniau, caneuon a chartŵnau. Mae'n addas i'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r pwnc, yn ogystal â'r rhai sydd eisiau ehangu eu gwybodaeth ohono.

Jill Evans.

Dilwen M. Evans (addas.) LLYFRAU SBONC: OLWYNION: MAINT. Gwasg Gomer, £1.50 yr un.

-------

Dyma ddau lyfr arall yn y gyfres Llyfrau Sbonc sy'n dilyn hynt a helynt y ddau gymeriad Coco Clown a Rici Racŵn.

Yn y llyfr 'MAINT' dysgir llawer o gysyniadau mathemategol, geirfa ac ansoddeiriau a hynny mewn ffordd ddeniadol. Caiff y darllenydd gyfle i agor drws a thynnu tabiau i ddarganfod y wybodaeth newydd.

Yn y llyfr 'OLWYNION' sonnir am gerbydau o bob math a'r gwahanol lwythi y bydd y cerbydau yn eu cario ar hyd y ffyrdd. Cyflwynir yr wybodaeth mewn ffordd ddeniadol ac rwy'n siwr y bydd y ddwy gyfrol wrth fodd calon y darllenydd ifanc.

Anne Brooke, DYSGU DAU (2) Gwasg Gomer, £2.50.

-------

Ail ran cwrs dysgu Cymraeg i rieni plant ysgolion meithrin a dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion dwyieithog yw'r llyfr hwn gan Anne Brooke.

Sylfeinir y cwrs, sy'n hawdd ei ddilyn, ar batrymau iaith a gweithgareddau a geir mewn dosbarthiadau meithrin, a gall y rhiant sy'n dilyn y cwrs hwn gynorthwyo'i blentyn i ddysgu'r iaith.

Mae yma ambell ffurf ramadegol sy'n taro'n chwithig ar y glust, e.e. 'Wy'n cerdded; 'Wy'n ffaelu (pronounced 'ffilly'); Doda fe yn y bocs.

Er hynny, rwy'n siwr fod yma gwrs syml a buddiol i rieni sydd wedi danfon eu plant i dderbyn addysg mewn ysgolion dwyieithog.

Loreen Williams.

---

CYFRES Y BEIRDD ANSWYDDOGOL Y Lolfa, £1.45 yr un
14. Lona Mari Walters, PUM MUNUD ARALL
12. Sheelah Thomas, DU
13. Iwan Llwyd, SONEDAU BORE SADWRN.

-------

Yn y llyfrynnau deniadol hyn ceir gwaith tri bardd ifanc, dwy ferch ac un mab. Myfyrwraig yn Aberystwyth yw Lona Mari Walters er bod iddi gysylltiadau â Chaerdydd, ac mae cywair digamsyniol fenywaidd i'w cherddi; yn wir ceir mwy nag un ganddi na allai ond merch eu canu. Myfyrwraig yw Sheelagh Thomas hefyd, ond ym Manceinion yn astudio Llên America y mae ac nid rhyfedd felly yw clywed tinc dinesig ac anghyfarwydd ym mater a modd ei cherddi. Y Wers Rydd yw cyfrwng y ddwy a rhaid gofyn pam nad yw'r merched sy'n prydyddu heddiw yn dewis y mesurau traddodiadol. Nid yw Iwan Llwyd yn anghyfarwydd â nhw er bod dau wall yn difetha'r unig englyn yn ei lyfr. Mae'n wir mai'r Wers Rydd yw ei ddewis yntau fynychaf, ond o bryd i'w gilydd mae'n ei phereiddio â chynghanedd, a 'does dim dwywaith gennyf nad yw'r defnydd ohoni yn grymuso'r mynegiant.

Roger Boore (addas.) CYFRES SION YN DARGANFOD; SION AR EI WYLIAU; SION A'I GI. Gwasg y Dref Wen, £2.25 yr un. C.B.A.C.

-------

Addaswyd y ddau lyfr yma gan Roger Boore, y naill â chydweithrediad Awdurdod Addysg Dyfed a'r llall â chydweithrediad Awdurdod Addysg Powys.

Cynlluniwyd y llyfrau'n bennaf i ddysgu geirfa newydd ac i fod yn sylfaen gweithgaredd neu'n destun sgyrsiau rhwng y plentyn a'r athro neu riant.

Mae yma luniau mawr deniadol a digonedd o gyfle i sgwrsio gan fod cymaint yn digwydd ymhob llun fel bod y prif gymeriad, sef Siôn, yn mynd ar goll ynghanol y bwrlwm gweithgaredd. Er hynny, braf yw gweld rhagor o'r llyfrau deniadol yn y gyfres hon.

Donald Evans, MACHLUD CANRIF, Cyhoeddiadau Barddas, £2.00.

-------

A dyma ddod yn naturiol at gasgliad diweddaraf Donald Evans, bardd sy'n gymaint o ddewin wrth drin y Wers Rydd ag ydyw wrth drafod yr hen fesurau. Ei genadwri, wrth i'r ganrif walgof hon ruthro at ei diwedd, yw cymell arnom hen warineb araf pobl y pridd ar Fanc Sion Cwilt, a hynny heb hiraethu'n ichabodus am a fu nac anobeithio am a ddaw. Ond er pwysiced y neges, rhin y dweud sy'n mynd â bryd dyn. Yn sicr y mae yma fardd meistrolgar ar waith ac ni ellir ond cymell ei gyfrol ddiweddaraf yn frwd.

T. Arfon Williams.

---

Llongyfarchiadau i Pwt a Delyth ar enedigaeth merch fach ar Fai 9fed, Elen, bydd croeso iddi olchi crysau'r tîm peldroed ymhen ychydig flynyddoedd.

Llongyfarchiadau i Hefin Rowlands ar ei apwyntio'n ddarlithydd yn Adran Robotics yn yr Athrofa - mi fydd gan y Clwb 'sub' o hyn allan beth bynnag fydd y tywydd neu'r amgylchiad.

Llongyfarchiadau i Rheon ar gael ohono swydd newydd yng Nghaerfyrddin, bydd yn golled peidio gweld yr hen geffyl gwedd ar y cae y tymor nesaf.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Wn i ddim a wnewch chi ben na chynffon o'r golofn hon y mis yma. Ar fore Sul cynnes a heulog ym mis Mai, roedd Owen a finna'n teithio drwy Ffrainc. Rhaid dweud ar f'union nad ydy daearyddiaeth yn golygu dim i'w dim imi. Perswadiodd Owen fi y buasai dilyn y map yn gwneud y daith yn fwy diddorol, a gwir hynny, ond nid cweit yn yr un ystyr ag oedd Owen yn 'i feddwl.

Dyma gychwyn ben bora o Challou Sur Son a thrwyn y car am Cannes a chaset Telyn Cymru yn llenwi'r car a rhyw arwyddocad arbennig i'r geiriau a glywn

"Rhyw Sul uwch na'r Suliau oedd"

Beth bynnag, rhyw sgwrs fel hyn ddilynodd, ac mae'n rhaid ichi sylweddoli fy mod yn ynganu enw pob lle fel tae o ar fap o Ben Llŷn.

O. Lle 'da ni o Lyons?
S. Rhyw fodfadd a rhaid iti dros i'r chwith.
O. I'r dde wyt ti'n feddwl.
S. I'r chwith mae o ar y map 'ma.

Gyda cryn amynedd a dyfalbarhad dyma Owen yn esbonio ein bod yn teithio i'r de a finna'n ateb bod y map 'i ben i lawr ta! Dyma fi'n sylweddoli bod pob map 'i ben 'i lawr os yda chi'n teithio i'r de ond yn iawn i bawb sy'n mynd i'r cyfeiriad arall. Dyna i chi ddarganfyddiad i ddynas ganol oed!

Bob hyn a hyn roedd i'n Gob Porthmadog arnom ni, ac wrth gwrs roedd bwth pob tollborth ar f'ochor i a wnes i fawr o les i hwyliau'r dynion oedd ar ddyletswydd gan i mi droeon roi'r arian neu'r tocyn yn y lle anghywir nes roedd clychau'n canu a'r peiriant yn cael steric

Rhywle ar y ffordd roedd Côr Cantre'r Gwaelod yn canu croes acen yn fendigedig ac fe geisiais esbonio nodweddion canu croes acen i Owen heb lwyddiant o gwbwl. Nid oedd yn dall nac yn gallu clywed hanfodion canu croes acen.

Daeth amser cinio a ffwrdd a ni oddiar y drafforddd i bentre bach Loriol a pharcio ar sgwar y pentre. Yno roedd map o'r pentre, ac fel arbenigwr erbyn hyn dyma fi'n gwneud bî lein amdano a meddai Owen

Mae hwn 'i ben i lawr i ti.

S. Sut ar wyneb y ddaear wyt ti'n gwybod?
O. Rwyt ti'n anobeithiol o dwp.
S. Dwyt titha ddim yn dallt croes acen!

---

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs. Janet Parry Jones ar ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar, ac i Siân a John ar golli eu nain.

---

Trist yw cofnodi marwolaeth un o drigolion Caerdydd - Mrs. Rachel Lewis, Garth, Heol Llantrisant. Yn enedigol o ardal Penycoedcae ger Pontypridd, roedd yn adnabyddus am flynyddoedd fel Matron Miles. Bu'n Fatron yn Ysbyty'r Prince of Wales rhwng 1934 a 1950. Roedd ei diweddar ŵr - Mr. John Lewis, yn berchen ar ffatri'r Cambrian, Dolfach, Llandysul. Yn aelod ffyddlon yn Ebeneser, Caerdydd, roedd yn un o'r ychydig prin ar ôl ag acenion hyfryd Bro Morgannwg. Cydymdeimlir â'i brawd, Tom Miles, Ystradowen, a'i brawd yng nghyfraith, Robert Owen, Llandaf.

WALTER GERHARDT

Trist oedd y newyddion ddaeth am farwolaeth sydyn Walter Gerhardt mewn damwain car ar y Cyfandir, ac fe'i claddwyd yn yr Almaen. Roedd yn ddyn talentog, diddorol, a chymhleth. Bu'n dysgu'r ffidil yng Ngholeg Cerdd a Drama am flynyddoedd ac am gyfnod bu'n dysgu'r ffidil yn Ysgol Rhydfelen. Bu'n feirniad yn yr Eisteddfod Genedlaethol droeon. Gyda chwithdod y clywodd pawb a fu â chysylltiad ag o am ei ddiwedd trist ac unig.

---

Cydymdeimlwn â Mrs. Johnson, Pitman St., Trecanna, ar farwolaeth ei gŵr, Reg. Bu'r ddau yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Salem a bydd hiraeth yno am y casglwr urddasol. Cydymdeimlwn hefyd a Douglas a Jean a'r wyrion, Neil, Catherine, Ruth, Stephen a Michael.

TŶ AR WERTH : Yr Eglwys Newydd.

Byngalo dormer, 5 llofft, 2 barlwr, cegin, 2 ystafell ymolchi, gwres canolog nwy, gardd braf. Ffordd ddistaw. Plot ⅓ acer. O fewn cyrraedd cerdded i ysgol, trên, siopau. £60,000. Caerdydd 66442.

---

MERCH/DYNES i ofalu am fabi (merch) tra fod ei rhieni wrth eu gwaith. Dechrau yn ystod Awst. Caerdydd 755017.

---

AR WERTH

Carafan Eccles (4), Cysgodlen a phabell tŷ bach. Rhewgell, Gwresogydd, Pwmp Dŵr a Bwrdd Gwersylla; Porta Potti newydd. Pris: £470 (n.c.a.). Tel: Caerdydd 30499 ar ôl 7 p.m.

---

A wyddech chi, drigolion Treganna, am siop Harding's, rhwng Peacocks a'r siop iechyd? Mae 'da nhw stoc dda o gardiau Cymraeg ar gyfer pob achlysur.

---

Ganwyd Mari Elin Osborne ar Ebrill 25, yn ferch i Shân a Howard Osborne, Gwaelod y Garth.

---

Llongyfarchiadau i Mr. Iwan Guy ar gael ei apwyntio yn Brifathro Ysgol Gymraeg Maesteg.

Llongyfarchiadau i Elwyn ac Eirian Hughes ar enedigaeth merch fach, Meinir Wyn.

---

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD 561788**

PENTYMOR

Nid oedd pnawn Sadwrn, Mai 7fed, yn wahanol i'r un pnawn Sadwrn yn y chwe mis blaenorol. Yr un fu fy mharatoadau - chwilio'r tŷ am fy nillad chwarae pel-droed, sebon, lliain ac esgidiau ac yn y blaen, eu taflu i gefn y car, a gyrru yn hanner gwyllt i lawr i faes Pontcanna ar gyfer y gêm. Cyrraedd, a chael fy hun yn adyn unig yn sefyll wrth ddrws cloedig yr ystafell newid. Cipdrem ar y caeau, a chael y lle yn ddistaw heblaw am gyfarth-iad pwdl blewog gwyn a ddawnsiai rhwng y coed cnau ceffyl tra'n chwilio am ei feistr. Dyna od - ond na, o ystyried, mae'r tymor drosodd; roedd tymor 1982/83 wedi tynnu at ei derfyn. Ymlwybro'n ôl yn euog iawn at y wraig, a chael yn y fan a'r lle y brwsh paent, pwced a phast a phapur wal, a'm gwthio cyn cael amser i ailfeddwl at y dasg o bapuro'r grisiau o bob man.

Mae papuro unrhyw fan yn dasg ynddo'i hun, ond am wynebu'r grisiau, sut a lle ar wyneb daear roedd dechrau deudwch. Roedd yn edrych yn debyg y buasai'n rhaid cael 'parashwt' cyn mentro, a wedyn cael a chael fyddai hi a fyddai rhywun yn glanio'n saff. Dyma ddechrau mesur; gollwng y rholyn o'r top i'r gwaelod, a hwnnw'n dal i agor ac agor gan ymestyn i'r pwll diwaelod ar waelod y grisiau. Pastio a gosod a dymuno a breuddwydio fel yr hysbyseb 'Hamlet' am fod ar cae peldroed ynghanol y frwydr fawr yn erbyn Toriaid Rhymni am gêm olaf y tymor. Gweld y gwrid yn cochi a chefnwr y 'Cons' yn rhoi andros o belten i Elwyn nes oedd hwnnw'n gweld pob seren a phlaned a chomed yn y bydysawd ac ymhellach. Gweld yr henwr Huws yn ymdrafferthu i gyrraedd gôl y gwrthwynebwyr wedi cael anaf i'w goes yn gynnar yn y gêm. Gweld dau o dîm y Rhymni yn troedio'n ôl i'r ystafell newid ymhell cyn y chwiban olaf wedi cam-ddeall amcanion y gêm yn bendifaddau. Gweld Martin, Huw P. ac Alun Meirion yn taro cefn y rhwyd yn hynod o gelfydd i selio buddug-oliaeth ddwbl dros y 'Cons' yn ystod y tymor.



Llun o'r Tîm Cyntaf 1982/83:
Yn y cefn: Eynon, Rheon, Dewi (capten), Gareth, Elwyn (darpar gapten), Ken.
Yn y blaen: Martin, Alun Meirion, Huw bach, Huw Eirug, Huw Prich, Rhodri.

"Mae'r past 'na'n sychu a mae'r patrwm yn gam" meddai'r llais o waelodion y grisiau o rhywle. "Faint o amser sydd i fynd Ref" medda finna.

Ymlaen â'r dasg - mesur, pastio, gosod, rhegi, plygu cornel, rhegi, pastio, rhwygo, rhegi, ymlaen ac ymlaen nes cyrraedd maes Pontcanna wythnos ynghynt na'r tro diwethaf a'r gêm yn erbyn St. Mary's. Tîm da wedi rhoi cweir iawn inni yn y gêm gyntaf tua mis Hydref, ond ow dyna braf oedd gweld y rhwyd yn llenwi bump gwaith o'n plaid ni y tro hwn. Y sgôr terfynol oedd 5-2, a phrofiad bendigedig oedd cael ail fyw gôl glasurol Alun Meirion, cic mul Huw P, cic gosb Rheon, a chic-hosan Martin - cafwyd anrheg o un gol gan y gwrthwynebwyr ffeind yn ogystal. Crwydro wedyn i fyd yr ystadegau, ac er nad yw'r gynghrair ar gael, mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi crynhoad byr o'r tymor yn ei grynswth:

Chwaraewyd 24
Ennill 8
Cyfartal 9
Colli 7
Goliau: O Blaid 67;
Yn Erbyn 57
Pwyntiau 25

Yn anffodus, colli fu hanes yr Ail Dîm yn eu gêm olaf o'r tymor o 4 gôl i un ond dengys y tabl o'r gynghrair isod iddynt sicrhau eu lle yn Adran 4 o'r 'Cardiff Combination' am y tymor nesaf, a hei lwc yr aiff pethau yn well yn nhymor 1983/84.

DIVISION 4

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerau (Ely) | 22 | 17 | 2 | 3 | 79 | 24 | 36 |
| SGIHE (Llandaff) | 22 | 17 | 1 | 4 | 94 | 35 | 35 |
| Cardiff Express Lifts | 22 | 16 | 2 | 4 | 85 | 32 | 34 |
| Orangetown BC | 22 | 12 | 5 | 5 | 80 | 53 | 29 |
| Woodville Hotel | 22 | 11 | 2 | 9 | 47 | 43 | 26 |
| Wells United | 22 | 7 | 1 | 14 | 38 | 74 | 17 |
| Cathays Conservatives | 22 | 5 | 5 | 12 | 43 | 62 | 15 |
| Avenue Hotspur | 22 | 6 | 3 | 13 | 43 | 73 | 15 |
| Aelwyd-Yr-Urdd | 22 | 6 | 2 | 14 | 35 | 68 | 15 |
| Llanrumney Athletic | 22 | 7 | 5 | 10 | 49 | 69 | 14 |
| Whitchurch Hospital | 22 | 5 | 4 | 13 | 32 | 50 | 14 |
| BTD Stars | 22 | 6 | 2 | 14 | 41 | 74 | 14 |

"Wyt ti'n meddwl y gwnei di ddarfod papuro cyn dechrau'r tymor nesaf", protestiai llais egwan unwaith yn rhagor. "Mi fydd yn rhaid cael pâr o esgidiau peldroed newydd cyn hynny" medda finnau.

Yn cloi pob tymor, mae'n rhan annatod bellach bod Cinio blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol. Yng Nghlwb Trydan Pontcanna y cynhaliwyd y gwledda a'r gweithgareddau eleni, ac uchafbwynt y noson oedd cyflwyno'r gwobrau arbennig i chwaraewyr y flwyddyn. Llongyfarchiadau i Tony Smith ar ran yr Ail Dîm ac i Huw Pritchard ar ran y Tîm Cyntaf am eu dycnwch a'u cyfraniad trwy gydol y tymor. Mae'n werth cofnodi mai hwn oedd tymor llawn cyntaf Huw yn y tîm cyntaf ac ef yw'r ieuengaf erioed i ennill yr anrhydedd. Cyflwynwyd dwy wobr arbennig i Eynon a Rhodri am eu ffyddlondeb i'r Clwb dros gyfnod o ddeg mlynedd a mwy, a rhoddwyd cas llyfr pensiwn yr un i Gareth a Cen am eu dyfalbarhad.

Etholwyd y canlynol yn swyddogion y Clwb am y tymor nesaf:
Cadeirydd: Rhodri Gwyn Jones
Ysgrifennydd: Wyn Roberts (tîm cyntaf); Pete Davies (ail dîm)
Trysorydd: Peredur (Pwt) Efans.
Capten : Elwyn Roberts (tîm cyntaf)
Twics (ail dîm)
Is-Gapten: Alun Meirion (tîm cyntaf)
Richard Parsons (ail dîm)
Hyfforddwr: Alun Meirion
Adloniant: Martin Hopwood, Hefin Rowlands

"Mae'r papur yn edrych yn eitha neis yn ei le yntydi" ebe fi; cytuna'r llais o'r llawr.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Un na fu pall ar ei deyrngarwch i'r golofn yw Gilbert Ruddock. Cawsom y fraint o gyhoeddi sawl cerdd newydd ganddo yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, ac rwy'n mawr obeithio y gwelir cyn bo hir iawn gasglu'r rhain ynghyd mewn cyfrol. Mae'n debyg i'r gerdd isod o'i eiddo weld golau dydd sawl blwyddyn yn ôl mewn cyhoeddiad arall, ond cefais gennad y bardd i'w chodi i'r golofn y mis hwn. Mae'n un o'r darnau 'gwahanol' hynny sy'n tynnu sylw dyn. Mae'n ymddangos yn gerdd chwareus ffwrdd-â-hi, ond ynglyw yr ystyriol o'i darllen â dilema'r neb a gais feddiannu ei fyfyrdod mewn geiriau. Erys pob ymgais o'i eiddo yn anfoddhaol annherfynol, ac mae'r cryman hwnnw yn hofran ar ddiwedd pob brawddeg ganddo.

ATALNODI

O fewn yr atalnodi
mae'r cystrawennau'n magu -
y brawddegau'n ymddatblygu,
yn isgymalu,
yn sangiadu chwanegiadau
(rhwng cromfachau)
lle bo galw,
neu'n ymgymhlethu'n bellach
(drwy gyfrwng petryalu).
Ambell waith,
mae rhyw ystyr hud yn oed
i iaith y geiriau llanw -
y cyd-destun sy'n penderfynu.
Ond rhaid eu nodi yn ofalus,
yn artistig, -
rhag ofn eu camfarnu.

Mae'r atalnodi'n bwysig.

Dechreua'r ymarferiad
â sgrech o Brif Lythyren,
a honno'n cael ei dilyn
(gyda lwc)
gan res o forffolega
a gylchir gan seibiannau fyrdd
ar lun dim byd
(ond sy'n gwbl angenrheidiol, yr un pryd,
ac a nodir mewn amrywiol ffyrdd).
Byr yw'r eitemau cyntaf,
a cheir mynych ddefnydd o ddyfynodau
(yn niffyg profiad a syniadau).

Wrth fynd ymlaen,
a magu nerth ac argyhoeddiad
a gwybodaeth well o'r iaith,
daw ffurf rhyw nod-ebychiad
yn fwyfwy plaen.

Ond arwydd o orfrwdfrydedd
yw cael hyn hyd ryw ormodedd,
a dynion digon gwamal
sy'n gyfrifol
yn bur amal.

Serch hynny,
prawf a aeddfedrwydd meddwl
a meistrolaeth dros deimladqu'r galon
a chwirciau Ffawd
yw'r defnydd doeth o'r colon -
neu'n well fyth,
ei hanner brawd.
Dyma ddangos cynnydd gwir -

tyfiant gwybod fod mwy i ddod,
fod rhyw gysylltiad rhwng pethau.
Gyda hyn - a'r cyplysnod hir -
eir ymlaen yn nhreigl amserau
at lawn aeddfedrwydd arddull,
a'r atalnodi yn gynhaeaf
o arwyddion ystyrlon
sy'n ymgynnull
yn barod at y gaeaf.

Mae'r ymarferiad yn un hynod,
ac ynddo lawer o feini tramgwydd
ar lwybr yr anghyfarwydd;
diau fod llawer pennod
yn yr hanes
heb ei chofnod uchod.
Ond gellir bod yn sicr o un peth:
mai diwedd yr atalnodi
yn ddi-feth
fydd cryman rhyw ofynnod.

Gilbert Ruddock.


---

Cofiwch, chwi feirdd eraill, mai'r cyfeiriad yw:
'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd,
Caerdydd. Dewch, dewch.

---

Yn eu plyg, ni chafwyd plant y bryniau
yn brin gyda'u moliant
a'th ddyrchafu, Siorys Sant,
i ganol dy ogoniant.

T.A.W.



# TYSTEB GENEDLAETHOL

# DR. KATE ROBERTS



Annwyl Gyfeillion

Mae ar genedl y Cymry ddyled fawr i'r Dr Kate Roberts.

Cyfnod yw hwn sy'n ymdeimlo i'r byw â gwerth tyngedfennol yr iaith Gymraeg. Bu ymdrech daer a hunan-aberthol drosti.

Rhoddodd Dr Kate Roberts oes hir o wasanaeth i'r genedl a'r iaith. Bu'n athrawes dda a gofalus. Rhoddodd i ni storïau a nofelau sydd bellach yn rhan o'n treftadaeth lenyddol. Gwnaeth yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'i bywyd ac o'i maniffesto gwleidyddol. Dywedodd wrthym nad oes ystyr i frwydro drosti oni bai ein bod yn ei pharchu fel llestr glân a phrydferth.

Y mae'r plentyn a'r hynafgwr bellach yn gyfarwydd â'i chelfyddyd. Cawn yn ei gwaith ddisgrifio poenus-fanwl, ceinder iaith, arddull hollol arbennig a chofnod llenyddol a chymdeithasegol gwerthfawr iawn o dalp helaeth o'r ugeinfed ganrif yng Nghymru.

Y mae Dr Kate Roberts erbyn hyn dros ei deg a phedwar ugain, a'i meddwl yn gwbl glir, er bod ei chorff yn llesgáu. Rhaid iddi felly wrth ofal cyson.

Ystyr y llythyr hwn yw rhoi cyfle i brofi'n ymdeimlad a'n dyled enfawr iddi trwy gyfrannu at deyrnged genedlaethol i frenhines ein llên.

Gwn y gwnewch ymateb i'r llythyr hwn. Carwn yn fawr weld llu yn cyfrannu £25 a mwy, ond fe fydd pob rhodd fechan a mawr yn cael gwerthfawrogiad twymgalon.

Anfonwch eich cyfraniad yn uniongyrchol at Mr Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol, Swyddfa'r Eisteddfod, 10 Park Grove, Caerdydd, CF1 3BN.

Gobeithir medru cyhoeddi rhestr o'r noddwyr adeg Eisteddfod Genedlaethol Môn a throsglwyddo'r Dysteb yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

*Yn gywir iawn.*

Goronwy Daniel
Alun Talfan Davies
Raymond Edwards
Islwyn Ffowc Elis
Gwyn Erfyl
Gwynfor Evans
W. Emrys Evans
Idris Foster

Geraint Gruffydd
Mathonwy Hughes
Emyr Jenkins
Bedwyr Lewis Jones
Gwilym R. Jones
John Gwilym Jones

Derec Llwyd Morgan
James Nicholas
Thomas Parry
Alwyn Roberts
Idwal Symonds
Gwilym O. Williams
Rhydwen Williams
W. Cynwil Williams

---

## TYSTEB GENEDLAETHOL DR KATE ROBERTS

Y mae'n bleser gennyf amgau £ ________ tuag at Dysteb Genedlaethol Dr Kate Roberts.


Oddiwrth: ..........................................................................

..........................................................................

..........................................................................

TALER POB SIEC I "TYSTEB DR KATE ROBERTS"

# O'R SEDD GEFN



Mae gan y diwydiant ffilmiau fel cyfryngau eraill mae'n debyg, ei ffasiynau neu ei themau cyfnewidiol. Ac mae'n rhyfedd sylwi sut mae mathau arbennig o ffilmiau yn ffasiynol un flwyddyn a'r flwyddyn nesa mae'r ffasiwn yn cael ei ddisodli gan ryw syniad newydd. Dyna sydd i'w ddisgwyl wrth gwrs a dyna sy'n cadw diwydiant ffilmiau iach yn holliach. Eisioes eleni fe welwyd rhyddhau pedair comedi o leia (ac rwy'n siwr fod 'na ragor). Cafwyd PRIVATES ON PARADE, THE WORLD ACCORDING TO GARP, THE MISSIONARY a nawr TOOTSIE, a'r un ola 'ma sydd wedi mynd â'm bryd y tro hwn.

Hyd y gwela i nid yw TOOTSIE (Pollack) yn ceisio bod yn ddim byd mwy na stori seml neu gomedi chwaethus. Hynny yw, nid comedi yn ôl dull Monty Python mo'r ffilm hon gyda'i nod o beri chwerthin mewn modd uniongyrchol o'r dechrau hyd y diwedd. Mae gan y ffilm stori a daw'r chwerthin fesul tamaid ynghanol yr actio ac ynghanol llinellau'r actorion yn hytrach na thrwy jôcs bwriadol.
Heb ddatgelu gormod am gynnwys y ffilm, dyma stori am actor o'r enw Michael Dorsey (Dustin Hoffman) sydd, yn gam neu'n gymwys, yn cael cryn drafferth i argyhoeddi cyfarwyddwyr ei fod yn actor da. Ar ôl chwilio'n ddyfal am waith mae'n penderfynu rhoi cynnig arni trwy gymryd arno fod yn fenyw, ac mae'n llwyddo oherwydd dyma fe, neu hi, yn cael rhan bwysig mewn drama gyfres ar y teledu. Dros nos bron mae'n dod yn gymeriad o fri i filiynau o wragedd ledled America, ac yn sgîl hyn - ac o gofio'r gyfrinach taw dyn yw'r fenyw - mae 'na broblemau di-ri yn codi.

Dyna yn syml yw sylfaen y stori a chyda chefndir o'r fath mae disgwyl i'r ffilm ymdebygu i ffars ar adegau, ac yn wir dyna yw hi gyda'r holl newid o fod yn ddyn i fod yn wraig a nôl. Wrth gwrs mae'r holl beth yn gwbl anghredadwy ond does dim ots. Cyn pen dim mae'r gynulleidfa'n derbyn y sefyllfa ac yn derbyn fod 'na ffilm o fewn ffilm. Nid yw Dustin Hoffman hyd yn oed yn gredadwy fel menyw a byddai Dannie La Rue wedi gwneud gwell job o lawer, ond nid yw hynny'n bwysig ac nid dyna sydd ei angen. Mae'r gynulleidfa yn cael ei hudo gan Miss Dorothy Michaels (Dustin Hoffman) sy'n afrosgo ac yn uchel ei chloch ond yn annwyl ac yn dyner yr un pryd. A dylwn ddweud fan yma fod 'na gryn deimlad i'r ffilm a rhannau sensitif iawn yn enwedig yn y berthynas rhwng Julie (Jessica Lange) a Miss Michaels/Mr. Dorsey.

Dywedais uchod nad oedd Hoffman yn gwneud menyw gredadwy, ond mae e'n actio'n wych, a dyna'r gamp mae'n debyg - mae e'n actio'n dda i beidio â chyfleu menyw sy'n rhy gradadwy. Felly hefyd gydag actio Jessica Lange a Dabney Coleman sydd ill dau yn rhoi perfformiadau gwerth chweil.

Mae'r ffilm hon yn ddoniol ac yn gaboledig a byddwn yn annog pawb sy'n hoff o gomedi neu ffars i fynd i'w gweld hi. Mae yn yr Odeon yn Heol y Frenhines ar hyn o bryd.

Ioan Kidd.

# HEI LWC!

# £5

O'r mis hwn ymlaen mae'r DINESYDD yn cynnig gwobr o £5 bob mis am yr ateb cywir cyntaf i'r Croesair. Ie! £5 o wobr. Ewch ati nawr i ddatrys. Trowch i'r cefn.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

Dewch am lond gwlad o chwerthin iach a mwynhau doniolwch

**TAIR COMEDI FER**

**THEATR CYMRU**

yn cyflwyno

**John Huws Drws Nesa** gan Cynan
**Y Pwyllgor** gan D.T. Davies
**Y Practis** gan Leyshon Williams

Tair comedi ysgafn, ffraeth a phoblogiadd o gyfnod oes aur y ddrama gegin. Actorion parhaol y Cwmni fydd yn cyflwyno'r hen ffefrynnau yma rydd wledd o chwerthin i bawb o bob oed.

**THEATRE SHERMAN - Arena**
**Coleg y Brifysgol,**
**Heol Senghennydd, Caerdydd**

**Llun-Mercher, 13-15 MEHEFIN, 8.00**

**Tocynnau: £2.80**
**gyda gostyngiadau i £2.00**
**Swyddfa Docynnau: CAERDYDD 30541**

Gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a chydweithrediad Cymdeithas Theatr Cymru.

# HEI LYNN

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau*

# HEI WYN

Llongyfarchiadau i Wyn Jones o Landaf a Heulwen Mainwaring o Rydaman ar eu priodas yn Rhydaman ar ddydd Sadwrn y Pasg.

-----

# HEULWEN

Llongyfarchiadau i Heulwen Davies ar gael ei phenodi yn Bennaeth yr Adran Gymraeg yn Ysgol Gyfun Penybont ar Ogwr. Mae Heulwen ar hyn o bryd yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Rhymni.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU**
**THE ROYAL NATIONAL EISTEDDFOD OF WALES**
**YNYS MÔN**
**Gorffennaf 30 – Awst 6 1983**

Swyddfa'r Eisteddfod, Y Stâd Ddiwydiannol, Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA. Teliffon Llangefni (0248) 724444
Osian Wyn Jones, Trefnydd

Annwyl Ddarllenydd,

Gyda dyfodiad S4C, bu'r misoedd diwethaf yn rhai cynhyrfus a diddorol i bawb sy'n hoffi difyrrwch yn Gymraeg. Cawsom fwy o raglenni teledu yn ein hiaith ein hunain nag a gawsom erioed o'r blaen. Am hynny, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni gynnal cyfarfod i wobrwyo rhai o'r bobl a roddodd berfformiadau rhagorol i ni yn ystod 1982-3. Dyma'r gwobrau a roddir:

Tlws i'r actor gorau (naill ai ar y teledu, ar lwyfan, neu ar y radio);
tlws i'r actores orau (yr un amodau eto);
tlws i'r actor mwyaf addawol (yr un amodau);
tlws i'r actores fwyaf addawol (yr un amodau);
tlws i'r sgriptiwr/sgriptwyr gorau;
tlws am y cynhyrchiad gorau.

Sefydlir panel a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd teledu, y theatr, radio, a'r Eisteddfod, a gwaith y panel fydd enwebu pedwar o enwau ym mhob un o'r categoriau a nodir uchod. Yna anfonir papurau pleidleisio i'w cynnwys yn eich Papur Bro chi. Gobeithiwn yn fawr y bydd gennych chi ddiddordeb mewn llenwi'r papur pleidleisio, fel y gellwch gymryd rhan yn y gwaith o ddewis pwy gaiff y tlysau.

Cynhelir cyfarfod i gyflwyno'r Tlysau Teilyngdod yn Theatr Newydd yr Eisteddfod ar y maes yn Llangefni. Bydd y cyfarfod o dan nawdd Pwyllgor Drama Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Fe'i recordir gan HTV, a'i ddarlledu yn gynnar yn yr hydref (mae'n debyg).

Mae'n gynllun cyffrous! Cymerwch ran ynddo! Edrychwch am y papur pleidleisio yn rhifyn nesaf y papur hwn!

Yn gywir iawn,

Derec Llwyd Morgan.

(Cadeirydd, Pwyllgor Gwaith Eisteddfod 1983)

---

PWYLLGOR CODI ARIAN AT EISTEDDFOD YR URDD 1985.

-----

Yn ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod yn Rhiwbeina i sefydlu pwyllgor codi arian yn yr ardal ar gyfer Steddfod Genedlaethol yr Urdd sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd yn 1985. Cadeirydd y pwyllgor ydy Mansel Jones gyda Dr. Justin Harries yn Ysgrifennydd ac Elwyn Owen yn Drysorydd. Gweithgarwch cyntaf y pwyllor fydd Cymanfa Ganu yng Nghapel Beulah, Rhiwbeina ar nos Sul y 10fed o Orffennaf am 8 o'r gloch gydag Alun Guy yn arwain a Brian Evans wrth yr organ. Llywydd y noson fydd Malcolm Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod 1985. Mynediad i'r Gymanfa fydd drwy raglen pris punt i'w chael gan aelodau'r Pwyllgor. Croeso i holl gantorion Caerdydd i'r Gymanfa hon.

-----------

Annwyl Olygydd,

Hoffwn hysbysu darllenwyr Y Dinesydd am gyhoeddiad newydd er budd Cronfa Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Yr Wyddgrug 1984.

Llyfryn am bunt yw "TRE'R FFIN", yn cynnwys barddoniaeth, straeon byrion, portreadau a llythyrau. Cyfres o argraffiadau am Wrecsam - sef Tre'r Ffin. Gellir archebu copi wrth ddanfon at yr awdur :

Aled Lewis Evans,
12, Stryd Dyfrig,
Pontcanna,
Caerdydd.

gan amgau stamp dosbarth cyntaf; neu galwch i mewn ym Mhontcanna i'm gweld.

Gyda phob diolch i'r Dinesydd am hysbysrwydd.

Aled Lewis Evans.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983**

Gorffennaf 30-Awst 6

**Y DRAMÂU**

THEATR GWYNEDD, BANGOR

NEUADD Y DREF, LLANGEFNI

YSGOL GYFUN LLANGEFNI

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983**

GWLEDD O GYNGHERDDAU YN Y BRIFWYL

NOS SADWRN, Gorffennaf 30 Cyngerdd dan nawdd BBC Cymru i ddathlu 60 mlynedd o ddarlledu yng Nghymru. Artistiaid amrywiol.

NOS SUL, Gorffennaf 31 Cyngerdd gyda Stuart Burrows a Cherddorfa Symffoni Gymreig y BBC.

NOS LUN, Awst 1 Eisteddfod fin nos

NOS FAWRTH, Awst 2 *Pasiant y Plant* — tri phasiant oddeutu 35 munud yr un — 'Hew Cymorod', 'Madam Wen' a 'Santes Dwynwen'.

NOS FERCHER, Awst 3 Cerddorfa Ieuenctid Genedlaethol Cymru

NOS IAU, Awst 4 Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Philharmonia Llundain yn perfformio 'Nabucco' (Verdi). *Arweinydd*: Owain Arwel Hughes; *Unawdwyr*: Elizabeth Vaughan, Michael Rippon, David Gwynne, Wynford Evans, Eirian James a Meriel Jenkins

NOS WENER, Awst 5 *Brethyn Cartref* — cyngerdd traddodiadol ar y thema 'Y Teulu' gyda Hogiau'r Ddwylan (Y Tad), Adar Rhiannon (Y Fam) a Pharti Llwchwr (Y Plentyn)

NOS SADWRN, Awst 6 Eisteddfod fin nos — Cystadleuaeth Rhuban Glas

Am docynnau, cysylltwch 'NAWR â Swyddfa'r Eisteddfod, Y Stad Ddiwydiannol Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA
Ffôn Llangefni 724444

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983**

Gorffennaf 30 - Awst 6

Psst! Eisiau mynd i'r Eisteddfod heb dalu'r un geiniog?
**DEWCH YNO FEL STIWARD!**

Ond bydd yn rhaid i chi weithio'n galed iawn am eich mynediad rhad — yn sicrhau bod trefn yn cael ei gadw tra'n gwarchod y drysau yn y Pafiliwn, y Babell Lên a mannau pwysig eraill.

Am fuflen berthnasol, gyrrwch heddiw at
Swyddfa'r Eisteddfod
Y Stad Ddiwydiannol
Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA
Ffôn Llangefni 724444

# Y DINESYDD BACH

CASGLU

Un prynhawn bu ein athrawes yn sôn am gasglu gwahanol bethau. Roedd yn ddiddorol gwrando ar blant y dosbarth yn sôn am eu gwahanol gasgliadau. Roedd rhai yn casglu stampiau;eraill yn casglu cregyn a synnodd pawb wrth glywed fy mod i yn casglu brogaod.

Cefais y syniad wedi ymweld â ffrindiau a chwarae gyda'r brogaod sydd yn byw mewn pwll yn yr ardd.

Pan benderfynais gasglu pethau am frogaod es i mewn i ddweud wrth dad; dywedodd e, "Ardderchog, o leia rwyt ti wedi cael y syniad o gasglu rhywbeth".

Y Nadolig canlynol cefais froga o ddefnydd gwyrdd ac wedi ei llenwi o dywod gan ffrind. Rhoddodd fy nghefnither bapur ysgrifennu ac amlenni a lluniau brogaod arnyn nhw i mi. A dyma ddechrau ar fy nghasgliad. Cefais hefyd gas pyjamas siâp broga a phedwar llyffant siena.

Rydw i'n cadw y cyfan ar silff yn fy ystafell wely. Os bydd rhywun yn gofyn beth rydw i am gael ar fy mhenblwydd, yr ateb bob tro yw broga.

Rydw i'n siwr eich bod chwithau yn hoff o gasglu gwahanol bethau; os nad oes gennych gasgliad yn barod beth am fynd ati i ddechrau?

Iona Rees,
(9 oed)
Ysgol Melin Gruffydd.



ADAR

Mae gen i ddiddordeb mewn adar. Rwyf yn hoff iawn o eistedd yn y ffenest yn gwylio'r adar yn yr ardd gefn. Mae gennym ni fwrdd adar o blastig gwyn a gwyrdd yn yr ardd ac mae'r adar yn hoff o ddod yno i gael diod neu gnau. Ac mae yno hefyd gnau coco yn hongian o'r goeden afal. Byddaf yn gweld pa adar sy yn yr ardd trwy edrych yn y llyfr: "Younger spotters Guides to birds", gan Su Swallow (enw pluog braidd!) hefyd rwyf yn defnyddio: "British birds and their nests" gan Brian Vessy-Fitzgerald F.L.S. Fe hoffwn ni brynu llyfr Cymraeg am adar am fy mod y yn gwybod bod nhw ar y farchnad.

Mae 'na lawer o wahanol adar yn nythu o gwmpas ein tŷ ni fel y Bioden, Dryw, Jac do, Robin a'r Wennol heb anghofio'r Titw Tomos Las. Mae'r Bioden yn nythu yn y goeden ar waelod yr ardd ac mae wedi dwyn un o glust-dlyse mam yn barod! Mae'r Wennol yn nythu o dan y bondo ac mae'n amlwg fod adar eraill yn nythu yn ein to ni achos fy mod yn gallu clywed y cywion yn trydar. Hoffwn ddringo'r to i weld pa adar sy na! Yn y berth mae'r Titw Tomos Las yn nythu. Dydw i ddim wedi dod o hyd i nyth y Dryw bach eto. Mae nyth y Jac do ar ben y simne ac mae'r Robin mewn rhyw degell ar y wal. Pan roeddwn yn cerdded yn y wlad rhyw bythefnos yn ôl fe glywais y gôg yn canu yn braf.

Eleri Owen,
(9 Oed)
Ysgol Melin Gruffydd.



# NODYN O SYNDOD!

Fe ffurfiwyd y grŵp 'Syndod' ym mis Hydref 1982 ac mae iddo bedwar aelod sef, Ian Gener, y canwr a'r gitarydd blaen; Gareth Wyn Jones, gitarydd fâs; Siôn Jobbins, gitarydd rhythm a Steven Jenkins y drwmwr. Mae'r aelodau i gyd yn bymtheg mlwydd oed ac yn awyddus iawn i chwarae mewn cyngherddau yn arbennig at achosion da. Mae'r grŵp yn wedi chwarae mewn dau gyngerdd yn barod, un yn Ysgol Glantaf gyda Derec Brown a'r Racaracwyr ac un arall yn Aelwyd yr Urdd Heol Conwy. Maent yn canu caneuon roc dawnsio fel "Helo, sut mae?" a "Yr Haul" ac hefyd un neu ddwy gân ysgafn fel "Helo neu Ffarwel?". Mae gan SYNDOD dros bymtheg cân yn ei 'set' yn barod ac maent yn brysur yn cyfansoddi caneuon newydd.

Yn ddiweddar fe chwaraeodd y grŵp am ddeuddeg awr yn yr Aelwyd er mwyn codi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd '85 ac fe gasglon nhw dros £35. Camp canmoladwy iawn gan grŵp newydd hwylus a brwdfrydig.

Os am fwy o fanylion cysylltwch â Siôn Jobbins, Caerdydd 63275 neu Ysgol Glantaf.

Ond yn y cyfamser ROCIWCH YMLAEN GAERDYDD ! !

Siôn T. Jobbins.

-----------

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf/Awst at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn 18fed Mehefin.

Rhoddion i Gronfa'r Dinesydd

Hoffai'r Pwyllgor Rheoli ddatgan diolchgarwch am y cyfraniadau canlynol i'r Gronfa:

Cylch Cinio Merched Caerdydd, £50;
Merched y Wawr, Caerffili, £15.

## AR DY FEIC !

Mae'r rhelyw o bobl yn cysylltu'r Brifysgol Agored a chyfryngau megis y radio a'r teledu, y gwasanaeth post, a'r teliffon. Sioc felly yw clywed taw un o bwrcasiadau diweddaraf swyddfa'r Brifysgol yng Nghaerdydd yw - beic!

A yw'r toriadau ariannol wedi cyrraedd yr asgwrn? A oes rhyw gynllwyn Tebbitaidd ar droed? Neu a yw'n fwriad gorfodi staff 'Prifysgol yr Awyr' i dreulio mwy o'u hamser yn yr awyr agored? Wel y gwir plaen yw nad y Brifysgol ei hun sydd tu ôl i'r fenter ond Cymdeithas Staff y Swyddfa.

Rhyw dair blynedd yn ôl symudodd y Brifysgol Agored i Heol yr Eglwys Gadeiriol ond er fod yr adeilad newydd yn hwylus a braf roedd un anfantais sef bod rhaid cerdded tipyn mwy i'r siopau. Ar ôl hir drafod daethpwyd i'r casgliad nad oedd ond un cyfrwng a allai, mewn gwirionedd, hwyluso byd y staff, a beic oedd hwnnw. Yn wir o gofio bod traffig erbyn hyn wedi ei wahardd o ganol y ddinas a bod yr awdurdodau wedi codi stondinau parcio beic yno, roedd y dewis yn anorfod. Llwyddwyd cael perswad ar y Clwb Staff yn y Pencadlys i roi cymorth ariannol ac erbyn hyn mae'r peiriant, yn ei lifrau glas (lliw y Brifysgol) a basged bob pen, wedi cyrraedd.

Er ei fod wedi ei arddangos (gweler y llun) nid yw eto wedi dechrau tramwyo'r priffyrdd. Rhaid aros nes bod yr heddlu yn gosod stamp arbennig ar y corff er mwyn hwyluso adnabyddiaeth os caiff ei ddwyn (rhyw fath o glustnod fodern!). Ond unwaith y digwydd hyn gobeithio y bydd yn olygfa gyffredin ar strydoedd y brifddinas.

Fel ernes o ewyllys da tuag at achos beicwyr yn gyffredinol bwriada'r Brifysgol osod stondinau parcio beic yn ei maes parcio yn Heol yr Eglwys Gadeiriol (mae ambell un ar dywydd braf, yn dod mor bell â Phentyrch ar ddwy olwyn!). Deallir fod stondinau cyffelyb yng Ngholeg y Brifysgol ond hyd yma ni lwyddwyd i weld dim o'r fath yng nghynteddau'r Swyddfa Gymreig. A oes llochesfannau eraill i'w cael?

Teithiau byr fydd yn wynebu beic y Brifysgol Agored ar hyn o bryd. Ond mae si ar led bod yna fwriad i ymweld â'r pencadlys yn Milton Keynes (drwy gwrteisi y Rheilffordd Brydeinig). Ond stori arall yw honno.




# C.N.D. CAERDYDD

Nid oes esgus gan Gymry Cymraeg Caerdydd bellach; mae grŵp Cymraeg o CND wedi ei sefydlu yng Nghaerdydd.

Sefydlwyd y grŵp yn swyddogol mewn cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Glantaf nos Fawrth y 3ydd o Fai. Roedd tua 30 o bobl yn y cyfarfod lle y cafwyd anerchiad arbennig gan y Parch Gronw ab Islwyn (Cadeirydd CND Cymru). Trafodwyd y syniad o sefydlu grŵp am beth amser, a phenderfynwyd sefydlu grŵp CND i Gymry Cymraeg y ddinas. Etholwyd swyddogion i'r grŵp i osod y grŵp ar ei draed.

Bydd y grŵp yn ymuno â chydweithredu gyda CND Caerdydd ac yn cynnal gweithgareddau eu hunain a fydd bob amser yn cael eu cynnal yn yr iaith Gymraeg. Mae angen digon o bobl i fod yn aelodau - pob oedran, mudiad a chapel. Bydd cyfarfod cyntaf GRWP CND CYMRAEG CAERDYDD yn cael ei gynnal nos Fercher, 29 Mehefin, am 7.30 yn YSGOL GYFUN GLANTAF. Yn y cyfarfod cyntaf fe gewch yr holl wybodaeth am fwriadau'r grŵp a manylion holl weithgareddau'r grŵp yn y dyfodol. Dewch yn llu i sicrhau dyfodol i ddynoliaeth y byd. Croeso i bawb ac edrychaf ymlaen i'ch gweld i gyd ar Fehefin 29.

Meinir Vittle,
Ysgrifennydd GRWP CND
CYMRAEG CAERDYDD.

## AGORED

Chwe mis yn ôl agorwyd Siop Heddwch yma yng Nghaerdydd gan grŵp brwdfrydig o weithwyr dros heddwch. Hyd yn hyn y mae'r ymateb i'r fenter hon yn galonogol.


Ym Mackintosh Place, ger Albany Rd. y mae'r siop, ac mae amrywiaeth o grefftau a gynhyrchwyd yn lleol ar werth yno yn ogystal ag eitemau o wledydd y trydydd byd. Gwerthir llyfrau, pamffledi a phosteri yn ymwneud â gwahanol agweddau ar ddiarfogi a phynciau cysylltiedig gan gynnwys llyfrau Cymraeg. Yn wir, fe hoffem estyn croeso i lawer mwy o Gymry Cymraeg i'r siop. Gan fwyaf gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y siop a chroesewir unrhyw gymorth ychwanegol.

Mae tŷ bwyta bychan yng nghefn y siop lle gwerthir lluniaeth ysgafn. Gwirfoddolwyr eto sy'n rhoi a darparu llawer o'r bwyd ac mae'r lluniaeth yn amrywiol ac heb fod yn ddrud.

Uwchben y siop mae dwy swyddfa sydd wedi'u gosod i'r Mudiad Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear, ac i'r Ymgyrch Feddygol yn erbyn Arfogi Niwclear. Yn ogystal â hyn, mae cychwynwyr y fenter ar hyn o bryd wrthi yn datblygu Canolfan Gwybodaeth am Heddwch lle gobeithir casglu defnydd fydd ar gael i grwpiau o bobl sy'n ymgyrchu dros heddwch.

Mae'r siop - yn 56 Mackintosh Place - ar agor o 10 y bore tan 6 y nos o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn. Cofiwch alw i'n gweld.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 33



AR DRAWS:

1. Dolennau'r ffordd, o edrych yn ôl. (6,2,4)
8. Islaw'r ferch. (7)
9. Cusan G.W. yn troi yn farus. (7)
11. Byddem yn syllu. (7)
12. Barrug lliwus? (7)
13. Ffydd yn rhoi sialens am y llafur. (5)
14. Rhethregu poeth yn cynnau tân? (9)
16. Ar ôl newid un ffel, roech yn ei gael yn drahaus. (9)
19. Dichonadwy. (5)
21. Darllenwyr "Pravda"?(7)
23. Lynn, dyweder. (7)
24. Mae ymgodymu yn golygu mynd i hwn. (1'1,5)
25. Mentrai yn rhyfygus.(7)
26. Dug air da, tlws, yn y weithred o gario o un man i'r llall. (12)

I LAWR:

1. Cathod rheibus, erotig, gwyllt o'th flaen di, --- a barnu wrth y sŵn.(7)
2. O ble mae Pedr yn dianc yn Actau X11,7-10? (1,6)
3. O gwmpas. (9)
4. "Drain ac ----- mall a'i medd". (5)
5. Mae'n dyheu. (7)
6. Tŷ i berson (sengl neu briod). (7)
7. Sefydliad ar gyfer dysgu prentisiaid, --- neu ar gyfer prentisiaid dysgu! (5,7)
10. Cymysgais ebran a sudd, wir ichi! A'r cymysgedd yn gwynto'n hyfryd fel Chanel! (5'1,6)
15. Gweithredoedd dyn gwirion sy'n rhoi 'i ben ôl yn drwsgl yng ngwâl anifail. (12)
17. "--- ---- eto?" (3,4)
18. Picil dyn pan fo diffyg ar ei ffon? (2,2,3)
19. Byddai yn stopio. (7)
20. Y sylfaen a osodwyd gan Dei a Sali. (7)
22. Nodwedd benthyg rhydd. (5)

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 32

AR DRAWS: 6. CEILIOG Y GWYNT; 8. ADFAIL; 10. AED; 11. EIRLYS; 12. YMDEBYGU; 14. BALMAIDD; 16. MAGWRFA; 20. CYFARTAL; 23. NELSON; 24. O.B.E.; 25. DIDDANWYR; 26. ARCHEBU; 27. NEWYDDIADURWYR.

I LAWR: 1. CIC ADLAM; 2. DIFLASAI; 3. SGLODYN; 4. Y GIWED; 5. ŴYR NEB; 6. CYD-DDINASYDDION; 7. TROS GYFNOD BYR; 13. BOG; 15. AUR; 17. ANNEALLUS; 18. WELWCH CHWI; 19. CLORIAU; 21. ADARWR; 22. TRWYDDO

Bob mis o hyn ymlaen bydd gwobr o £5 am yr ateb cywir cyntaf. Danfonwch at: Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd. Bydd enw'r enillydd yn y rhifyn nesaf.

# Y CALENDR

Mehefin:

6 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 7.30 p.m. Prif Westai: Syr Alun Talfan Davies.

11 Cyngerdd gan Grŵp Recorder 'Hoffed' yn Eglwys St. Michael and All Angels Tongwynlais, 7.30 p.m. Mynediad £1.00 trwy raglen oddi wrth B. Griffiths, 2 Castle Rd.,Tongwynlais (810255). Gostyngiad i Bensiynwyr, Myfyrwyr.

18 Ffair Haf Ysgol Melin Gruffydd, yn yr ysgol, 2 p.m.

17-19 Gŵyl Ifan. Gweler y rhaglen ar dudalen arall.

25 Ffair Haf Glantaf

Gorffennaf:

4 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty'r Parc am 1 p.m. Prif Westai: Dr. Ilid Anthony.

10 Cymanfa Ganu yng Nghapel Beulah, Rhiwbeina, o dan arweiniad Alun Guy. Yr elw tuag at Gronfa Ardal Rhiwbeina Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd '85.

Medi:

9 Noson Gaws a Gwin yng ngofal Ann a Ken Innes yn Ysgol Glantaf. Disco yng ngofal Hywel Gwynfryn. Yr elw at Ysbyty Harefield, 7.30 - 11.00 p.m.

Llongyfarchiadau i Gareth Huws; cafodd glywed y dydd o'r blaen gan y physiotherapist fod ganddo o leiaf bum mlynedd o chwarae ar ôl yn y coesau wedi'r cwbl. Rwyt ti'n iawn tan 1988 o leiaf felly.